## Disgrifiad Swydd

## **Teitl y Swydd:** Athro Celfyddydau Cynhwysol y Syrcas

**Yn atebol i:** Rheolwr y Prosiectau Cymunedol

**Cyflog:** Swydd ran amser yw hon (16 awr yr wythnos) gyda thâl o £1,051.14 y mis, gros (£31,534 y flwyddyn, pro-rata).

**Oriau Gwaith:** 16 awr yr wythnos, yn cyfateb i ddau ddiwrnod yr wythnos – bydd angen cytuno â'r rheolwr ar yr oriau gwaith. Bydd yn cynnwys gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau.

**Gwyliau**: Bydd gan y sawl a benodir hawl i 11 diwrnod y flwyddyn o wyliau gyda thâl, (28 diwrnod yn cynnwys gwyliau banc, pro-rata)

**Contract:** Cyfnod penodol o flwyddyn, gyda'r posibilrwydd o'i ymestyn am flwyddyn arall.

**Lleoliad:** Caerdydd

---

## Gair am NoFit State

NoFit State yw prif gwmni'r Deyrnas Unedig ym myd syrcas gyfoes ar raddfa fawr. Mae'n cynhyrchu sioeau teithiol proffesiynol ac yn cynnig pob math o brosiectau cymunedol ac addysgol a hyfforddiant i bobl o bob oed yn Nwyrain Caerddd. Dros y pymtheng mlynedd diwethaf, mae NoFit State wedi bod â chynyrchiadau teithiol i 19 o wahanol wledydd, wedi perfformio i gynulleidfaoedd o dros 1.6 miliwn, wedi cael eu canmol gan adolygwyr ac wedi ennill llawer o wobrau rhyngwladol o bwys.

### Y Rhaglen Gymunedol

Mae dwy elfen i Raglen Gymunedol NoFit State:

Rhaglen o ddosbarthiadau syrcas am dâl yn Four Elms a rhaglen o ddigwyddiadau di-dâl ar gyfer cymunedau Sblot, Adamsdown, Tremorfa, ffoaduriaid a cheiswyr lloches a phobl sy'n byw mewn tai â chymorth.

Cefnogir y rhaglen ddi-dâl gan waith Partneriaeth y Filltir Sgwâr, grŵp deinamig o bartneriaid statudol a thrydydd sector, sy'n cydweithio i ehangu cyfranogiad yn y celfyddydau yn Nwyrain Caerdydd.

Swydd ar gyfer yr elfen ddi-dâl yn y rhaglen yw hon ac mae'n cynnwys:-

- Cyflwyno dosbarthiadau syrcas cymunedol yn ein prif adeilad, Four Elms, e.e. Clybiau Syrcas, Syrcas Amrywiol, Cyflwyniad i Syrcas

- Cyflwyno amrywiaeth eang o sesiynau syrcas a sesiynau creadigol i bobl o bob oed a gallu mewn lleoliadau cymunedol, parciau, canolfannau cymuned ac ysgolion lleol



NoFit State Community Circus: Registered Company Number | Rhif Cwmni 3180348 / Registered Charity Number | Rhif Elusennol 1102850
NoFit State Circus Trading: Registered Company Number | Rhif Cwmni 06072806

- Monitro a gwerthuso'r uchod a chyfrannu at lunio'r rhaglen i'r dyfodol
- Cefnogi gwaith Partneriaeth y Filltir Sgwâr yn cyflwyno digwyddiadau celfyddydol awyr agored yn Nwyrain Caerdydd yn flynyddol e.e. Gŵyl Parc Fest

Mewn ymateb i bandemig Covid 19, rydym wedi ailadeiladu, ailddychmygu ac ailwampio ein blaenoriaethau cymunedol. Rydym wedi canolbwyntio o'r newydd ar ddatblygu rhaglen sy'n wir gynhwysol ac wedi'i chyd-greu – rhaglen sy'n dathlu creadigrwydd yr holl gymunedau hunaniaeth a chymunedau sefyllfa, ac sy'n gallu trawsnewid a grymuso o ddifrif.

**Cyd-destun recriwtio**

Mae cynllun busnes NoFit State yn canolbwyntio ar dair thema drawsbynciol:

- datblygiad creadigol
- datblygiad cymunedol
- datblygu'r sector

Mae pob rôl yn y cwmni'n canolbwyntio ar gyfrannu at y nodau hyn.

Mae hygyrchedd yn ganolog i'n hethos a chaiff hynny ei adlewyrchu yn y ffordd yr awn ati i recriwtio.

Os teimlwch y gallech wneud y swydd hon ond nad ydych yn ticio pob bocs ym manyleb y person, neu os credwch y byddai arnoch angen tipyn o hyfforddiant neu gefnogaeth ychwanegol er mwyn llwyddo'n llwyr, byddem yn dal wrth ein bodd yn clywed wrthych. Rydym yn awyddus iawn i benodi'r person gorau ar gyfer y swydd ar sail gallu a photensial – a gallwn gynnig cyfleoedd ar gyfer cefnogaeth a datblygiad proffesiynol yn y swydd.

Ar hyn o bryd, nid oes gan bobl anabl, B/byddar a/neu niwroamrywiol, pobl o gefndir y Mwyafrif Byd-eang na phobl o dan 30 oed gynrychiolaeth ddigonol yn ein tîm ac felly rydym yn annog pobl o'r grwpiau hyn, yn neilltuol, i ymgeisio.

Rhowch wybod i ni os bydd angen i ni wneud rhyw addasiadau yn ystod y broses ymgeisio neu recrwitio a byddwn yn barod iawn i'ch helpu. Gallwch gysylltu â Lizzy Feguson ar lizzy@nofitstate.org



NoFit State Community Circus: Registered Company Number | Rhif Cwmni 3180348 / Registered Charity Number | Rhif Elusennol 1102850
NoFit State Circus Trading: Registered Company Number | Rhif Cwmni 06072806

## Tîm Dysgu Celfyddydau Cynhwysol y Syrcas

Byddech yn ymuno â'n tîm o Diwtoriaid Celfyddydau Cynhwysol y Syrcas. Mae'r tîm yn gweithio ar wahanol brosiectau a dosbarthiadau mewnol, ac mae gofyn gweithio rai nosweithiau a phenwythnosau. Rydym yn gweithio mewn ardal sydd â lefelau uchel o amddifadedd ond sydd â chyfoeth diwylliannol gyda chyfranogwyr o wahanol oedrannau a galluoedd ac sydd â gwahanol anghenion.

Mae'r tîm yn cyflwyno sesiynau cynhwysol a hygyrch a gweithgareddau creadigol sy'n addas ar gyfer diddordebau ac anghenion grwpiau penodol. Maent yn chwarae rhan bwysig yn meithrin perthnasoedd cadarn a chydweithredol â'r rhai sy'n cymryd rhan, yn cipio'r dysgu (capturing learning) ac yn cyfrannu at wella'n dulliau ni o weithio. Maent yn cydweithio â'n Cefnogwyr Cymunedol ac â chymunedau lleol a chymunedau buddiant i helpu pobl i fynd ar daith greadigol neu daith o ddatblygiad personol trwy gyfrwng syrcas.

## Am bwy rydym ni'n chwilio?

Rydym yn chwilio am bobl sy'n frwd dros ddefnyddio syrcas i newid bywydau ac sydd â gwybodaeth a phrofiad i'w helpu i ddysgu sgiliau syrcas cynhwysol i blant, pobl ifanc ac oedolion sydd â gwahanol anghenion ac sydd o gefndiroedd amrywiol,

Rydym yn chwilio am rywun sydd â'r -

> gallu i ddysgu sgiliau awyrgampau a sgiliau daear, fel cydbwysedd, llawdrin ac acrobateg, yn ogystal â gwybodaeth a phrofiad ar gyfer datblygu ac arwain gwaith perfformio creadigol.
>
> profiad o ddysgu a chreu mewn meysydd eraill yn y celfyddydau perfformio, fel dawns a theatr gorfforol. Bydd hyn yn fantais ychwanegol.

Rydym yn chwilio am athrawon sy'n -

> fodlon bod yn greadigol ac yn hyblyg yn eu dull o addysgu ac yn agored i ganfod ffyrdd newydd o gydweithio â chyfranogwyr i chwalu rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan mewn syrcas.
>
> gallu gweithio fel tîm, ac yn annibynnol hefyd, ac yn gallu mynd ati i reoli gwaith.
>
> ymrwymo i sicrhau gwelliant parhaus mewn arferion proffesiynol a dulliau dysgu.

Ymhlith cyfrifoldebau eraill aelodau'r tîm hwn mae tasgau gweinyddol sylfaenol; llenwi ffurflenni monitro pob sesiwn, cyfrannu at adroddiadau gwerthuso, a rheoli'r gofod a'r offer hyfforddi. Bydd rhywfaint o hyblygrwydd wrth rannu'r tasgau o fewn y tîm, felly does dim rhaid i chi fod yn dda ym mhopeth er mwyn gwneud cais.

Mae'r swydd hon ar gontract tymor penodol am 12 mis i ddechrau, am 16 awr (2 ddiwrnod) yr wythnos, ond gellir gweithio'r oriau ar draws sawl diwrnod/noswaith a phenwythnosau. Felly rydym yn chwilio am bobl a all ymrwymo i hynny trwy gydol tymor cyfan y contract.



NoFit State Community Circus: Registered Company Number | Rhif Cwmni 3180348 / Registered Charity Number | Rhif Elusennol 1102850
NoFit State Circus Trading: Registered Company Number | Rhif Cwmni 06072806

## Prif gyfrifoldebau

**Cynllunio, dylunio a chyflwyno sesiynau dysgu syrcas**

- Cynllunio, dylunio a chyflwyno sesiynau syrcas cynhwysol a chymunedol ar gyfer pobl o wahanol oedrannau, anghenion a galluoedd. (Gallai hyn gynnwys rhai sydd ag anghenion ychwanegol emosiynol, ymddygiadol, a/neu o ran iechyd meddwl, gallu meddyliol a/neu allu corfforol)
- Cynllunio, datblygu a rheoli llwybr ar gyfer dysgu neu ddatblygiad creadigol er mwyn cyflawni nodau penodol dros nifer o sesiynau/wythnosau/misoedd
- Cydweithio â chyfranogwyr i ymateb i anghenion dysgu unigolion, pennu nodau a gweithio i chwalu rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan
- Creu cynlluniau gwersi i fodloni amcanion penodol tymor byr ac i weithio tuag at nodau tymor hwy
- Cydweithio â'r tîm addysgu i gyflwyno sesiynau sy'n seiliedig ar sgiliau a sesiynau creadigol, a all gynnwys gwaith chwarae syrcas
- Cydweithio â'r Cefnogwyr Cymunedol a Phartneriaeth y Filltir Sgwâr i lywio'r ffordd o ddarparu gweithgareddau
- Gwybodaeth ymarferol am ofynion iechyd a diogelwch ar gyfer dysgu a chreu syrcas, a sicrhau bod y gwaith o safon uchel e.e. asesiadau risg dynamig ac adrodd am broblemau
- Mynd i gyfarfodydd a hyfforddiant
- Gweithio fel rhan o dîm
- Meithrin ymddiriedaeth yn y berthynas â'r cymunedau rydym yn gweithio gyda nhw
- Cefnogi datblygiad partneriaethau ar gyfer prosiectau newydd
- Defnyddio gwybodaeth a phrofiad er mwyn datblygu cyfeiriad a gweithgareddau'r rhaglenni

**Datblygu'ch hunan ac eraill**

- Mentora a datblygu athrawon celfyddydau syrcas dan hyfforddiant
- Pennu'r anghenion ar gyfer datblygiad proffesiynol eich rôl chi'ch hunan a'ch tîm mewn perthynas â blaenoriaethau'r cwmni

**Rheoli Gofod ac Offer**

- Rheoli gofod ac offer ar gyfer hyfforddiant a gweithgareddau
- Archebu offer a rheoli cyllidebau offer
- Gwirio offer a chymryd rhan mewn gwiriadau LOLER yn rheolaidd

**Gwerthuso a Monitro**

- Cydweithio â'r Tîm Cymunedol i wneud cynlluniau monitro a gwerthuso ar gyfer gwaith prosiectau
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau monitro a gwerthuso er mwyn helpu i ddatblygu'r gwaith a rhoi adborth i arianwyr



NoFit State Community Circus: Registered Company Number | Rhif Cwmni 3180348 / Registered Charity Number | Rhif Elusennol 1102850
NoFit State Circus Trading: Registered Company Number | Rhif Cwmni 06072806

**Cyfrifoldebau cyffredinol a rennir gan holl aelodau'r tîm craidd**

- Cofnodi'r hyn a ddysgir a'i rannu
- Ymrwymiad i ddilyn holl bolisïau cwmni NoFit State a chynnal ethos y cwmni bob amser
- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd ehangach yn y cwmni hyd y gallwch o fewn strwythur cytunedig y rôl
- Cynrychioli NoFit State fel sy'n briodol ac yn ôl y gofyn
- Cyfrifoldeb am sicrhau'r gwerth gorau am arian
- Cadw cofnodion da o'ch gwaith a rhannu â'r tîm sut rydych yn dod ymlaen

Mae disgwyl i ddeiliad y swydd ymgymryd â dyletswyddau eraill yn ôl y gofyn.

## Manyleb y Person

| Hanfodol | Dymunol |
|---|---|
| Profiad o weithio fel hyfforddwr neu athro syrcas yn addysgu plant, pobl ifanc neu oedolion ac yn gallu dangos gwybodaeth am arferion gorau ar draws nifer o ddisgyblaethau – yn enwedig awyrgampau ond hefyd jyglo, llawdrin, cydbwyso ac acrobateg | Profiad o arwain prosiectau perfformio creadigol<br><br>Profiad o berfformio |
| Profiad a gwybodaeth ym maes cynllunio a chyflwyno sesiynau syrcas cynhwysol ar gyfer cyfranogwyr sydd â chefndiroedd, galluoedd ac anghenion amrywiol | Yn gallu cynllunio a rheoli llwybr dysgu er mwyn cyrraedd nodau penodol dros gyfnod o wythnosau neu fisoedd<br><br>Profiad o ddylunio a rheoli gwaith cyflenwi prosiectau |
| Dealltwriaeth a phrofiad o ymarfer cyfranogol a chynhwysol yng nghyd-destun syrcas | Dealltwriaeth o'r ffordd y gall ymgysylltu â'r celfyddydau ysgogi newid cymdeithasol |
| Profiad o weithio gyda grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio ac oedolion a phlant agored i niwed a dealltwriaeth o wahanol faterion sy'n effeithio ar y grwpiau hyn | Dealltwriaeth o waith datblygu cymunedol wrth gyd-greu rhaglenni gwaith |
| Safonau proffesiynol uchel: balchder mewn gwneud gwaith yn dda; gweithgar; dibynadwy; cydwybodol; prydlon; a gonest | |
| Cyfathrebu da - yn gallu derbyn adborth, cyfathrebu'n glir ac yn adeiladol | Yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg neu mewn ieithoedd eraill |
| Yn hyblyg, yn barod i addasu, ac yn gallu rheoli newid | |



NoFit State Community Circus: Registered Company Number | Rhif Cwmni 3180348 / Registered Charity Number | Rhif Elusennol 1102850
NoFit State Circus Trading: Registered Company Number | Rhif Cwmni 06072806

| | |
|---|---|
| Yn meddwl drosoch eich hunan, yn greadigol ac yn dda am ddatrys problemau | |
| Gwybodaeth am iechyd a diogelwch ac asesiadau risg ar gyfer dysgu syrcas yn ogystal ag arferion diogelu plant ac oedolion bregus | Wedii cael hyfforddiant Cymorth Cyntaf<br><br>Yn gallu ysgrifennu asesiadau risg |
| Yn gallu gwneud gwaith un-i-un gyda chyfranogwyr a rheoli grwpiau | |
| Yn gallu cydweithio fel rhan o dîm | Profiad o reoli pobl neu brosiectau |
| Yn gallu myfyrio ar eich gwaith - ymrwymiad i ddysgu a gwella ymarfer proffesiynol | |
| Sgiliau sylfaenol mewn gweinyddu a rheoli cyllidebau | |
| Llythrennedd cyfrifiadurol sylfaenol | Gyrrwr sydd â'ch car eich hunan |

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn destun gwiriad DBS a chaiff geirdaon eu gwirio hefyd.

## Y Broses Recriwtio

### Dyddiadau allweddol

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 12 ganol dydd, dydd Llun 24 Tachwedd 2025

Cyfweliadau:  Yr wythnos yn dechrau ar ddydd Llun 1 a 8 Rhagfyr

Syniad o'r dyddiad dechrau: Cyn gynted ag y bo modd, i'w benderfynu rhyngom.

### Sut i ymgeisio

Gofynnir i chi lenwi'r ffurflen gais ac ateb y cwestiynau. Mae croeso i chi anfon eich atebion yn ysgrifenedig, neu ar ffurf recordiad llais neu fideo. Cewch anfon eich CV hefyd os dymunwch, ond seilir y penderfyniadau ar y prif gais.

Anfonwch eich ceisiadau i: jobs@nofitstate.org

Neu eu postio at: Rheolwr Prosiectau Cymunedol
NoFit State Circus
Four Elms Road
Caerdydd  CF24 1LE

**Rhaid i ymgeiswyr fod yn gymwys i weithio yn y Deyrnas Unedig.**



NoFit State Community Circus: Registered Company Number | Rhif Cwmni 3180348 / Registered Charity Number | Rhif Elusennol 1102850
NoFit State Circus Trading: Registered Company Number | Rhif Cwmni 06072806